

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO - DYDD MAWRTH, 29 MEDI 2026

COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO A GYNHALIWDYD O BELL – DRWY GYFRWNG TIMAU
MICROSOFT DDYDD MAWRTH, 29 MEDI 2026 AM 14:00

Presennol – yn Rhithwir

Y Cyngorydd S Griffiths

Presennol - yn Rhithwir

A R Berrow
RL Penhale-Thomas

RM Granville

M L Hughes

J Llewellyn-Hopkins

Presennol – yn Rhithwir
(Aelod Lleyg)

B Olorunnisola

Ymddiheuriadau am Absenoldeb (Aelodau Lleyg):

D Austin

A Bagley

G Chapman

Datganiadau o Fuddiannau:

Dim

Swyddogion:

Jake Morgan
Carys Lord

Y Prif Weithredwr
Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cyllid a Thrawsnewid

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO - DYDD MAWRTH, 29 MEDI 2026

Kelly Watson
Joanne Norman
Nigel Smith
Rachel Keepins
David Williams
Lucy Herman
Andrew Wathan
Joan Davies
Rachel Keepins
Oscar Roberts
Stephen Griffiths

Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddiol ac Etholiadol
Dirprwy Bennaeth Cyllid Dros dro
Rheolwr Grŵp – Prif Gyfrifydd
Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd
Archwilio Cymru
Archwilio Cymru
Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol
Dirprwy Bennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol
Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd
Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau
Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau

Sylwer: Penodwyd y Cynghorydd S Griffiths yn Gadeirydd gan y Pwyllgor oherwydd absenoldeb y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd.

324. Datganiad Cyfrifon 2025-26 wedi eu Harchwilio

Y Penderfyniad Wnaed	Pwrpas yr adroddiad oedd cyflwyno'r Datganiad Cyfrifon am 2025-26 wedi eu harchwilio i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w cymeradwyo; mae'r rhain i fod i gael eu hardystio gan yr archwilwyr allanol, Archwilio Cymru, ynghyd â Llythyr Cynrychiolaeth y Cyngor cysylltiedig, y Datganiad Llywodraethu Blynnyddol oedd wedi ei gynnwys fel rhan o'r Datganiad, a llythyr yr archwilwyr ynghylch archwiliad y cyfrifon. Cafodd y Datganiad Cyfrifon heb eu harchwilio am 2025-26 ei lofnodi gan y swyddog ariannol cyfrifol ar 30 Mehefin 2026 a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 16 Gorffennaf 2026 er gwybodaeth. Gwnaed nifer fechan o ddiwygiadau i'r cyfrifon wedi hynny ac maent wedi eu hamlinellu yn Atodiad B yr adroddiad. Nodwyd nad oedd yr un o'r diwygiadau yn sylweddol. Nodwyd ymhellach mai bwriad yr archwilwyr oedd cyhoeddi adroddiad archwilio diamod. Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cyllid a Thrawsnewid fod y cyfrifon wedi cael eu cwblhau fis yn gynnar eleni, ac y byddai'r dyddiad cau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, sef 30 Medi, yn cael ei
----------------------	---

	gyrraedd. Diolchodd i gydweithwyr ar draws y Cyngor a'r ysgolion am eu gwaith yn cwblhau eu cyfraniadau. Yn neilltuol, diolchodd i'r Rheolwr Grŵp – Prif Gyfrifydd a'i gydweithwyr am y gwaith technegol o lunio'r cyfrifon hyn a pharatoi'r naratif. Hefyd, diolchodd i'r tîm yn Archwilio Cymru am y gwaith archwilio manwl iawn o ran y cyfrifon. Ychwanegodd y cynrychiolydd o Archwilio Cymru ei ddiolch yntau i swyddogion y Cyngor am eu cydweithrediad drwy gydol y broses archwilio. Mewn ymateb i'r adroddiad, cododd yr Aelodau nifer o faterion a'u trafod: • Yr unig ddiwygiad i'r prif ddatganiadau (3.5) mewn perthynas â darparu'r Ddarpariaeth Refeniw Isaf (MRP); lle nododd swyddogion wall cyfrifo a'i ddwyn i sylw Archwilio Cymru er mwyn ei gywiro. Nodwyd, er nad oedd y mater yn sylweddol, bod swyddogion wedi gwneud y diwygiad i sicrhau cywirdeb. Roedd y diwygiad yn werth £0.291 miliwn. Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Grŵp – Prif Gyfrifydd mai addasiad technegol oedd hwn a digwyddiad un tro ydoedd. • Y diwygiadau i nodiadau'r cyfrifon (3.6) – nad oeddent yn effeithio ar y prif ddatganiadau, ac a oedd unrhyw themâu cyffredin oedd wedi cael eu hamlygu o'r blaen neu y dylid eu nodi ar gyfer y dyfodol. Mewn ymateb, gwnaeth y Rheolwr Grŵp – Prif Gyfrifydd sylwadau, yn benodol ar y materion ynghylch Nodyn 15 ynglŷn â bandiau cyflogau gweithwyr, a'r diwygiad dosbarthu bychan i Nodyn 19. Ymhellach, nododd nad oedd nifer sylweddol o ddiwygiadau a mynegodd ei hyder bod gan y Cyngor broses gadarn yn ei lle i sicrhau bod y cyfrifon mor gywir ag yr oedd modd. Mae Archwilio Cymru hefyd yn craffu arnynt, a dylai hynny roi sicrwydd i'r Pwyllgor ynghylch y wybodaeth a ddatgelir ynddynt. Nododd hefyd y byddai'r broses yn cael ei thrafod gyda chydweithwyr ar draws yr adran Gyllid er mwyn gwella'r broses ymhellach y flwyddyn nesaf. • Cododd Aelod Lleyg gwestiwn ynghylch cywirdeb cyfrifiad yn ymwneud ag asedau a rhwymedigaethau'r Cyngor ar dudalen 15 o Atodiad A. Dangosai'r testun esboniadol fod asedau net y Cyngor wedi cynyddu o £34.268 miliwn, ond roedd y tabl yn dangos ffigwr o £39.309 miliwn. Nododd y Rheolwr Grŵp – Prif Gyfrifydd fod angen diwygio'r testun. • Y cynnydd sylweddol yng ngwerth net y Cyngor rhwng 2020-21 a 2022-23. Nododd y Rheolwr Grŵp – Prif Gyfrifydd fod hyn oherwydd symudiadau gan gynnwys cynnydd mewn Cronfeydd
--	--

	wedi eu Neilltuo (EMR) ac ailbrizio asedau. Mae ailbrizio yn cyfeirio at symudiadau yng ngwerth asedau nad ydynt yn ymwneud ag arian parod, ac yn cynrychioli addasiadau cyfrifyddu ar gyfer yr ailbrizio hwnnw. Yn hanesyddol, roedd sefyllfa o ddiffyg sylweddol yn ailbrisiad y pensiynau, ond nid yw hynny'n wir bellach, ac felly mae atebolrwydd y pensiynau wedi lleihau'n sylweddol. • Canfod risg a rheoli risg. Nododd Aelod fod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, yn hanesyddol, wedi bod yn ofalus iawn i osgoi risg, ac mai canlyniad bod â chyfrifoldeb am arian cyhoeddus oedd hyn i raddau helaeth. Nododd hefyd ei fod yn teimlo bod awydd i gymryd mwy o risgiau rheoledig, yn enwedig pe bai'r camau a gymerid yn arwain at ganlyniadau gwell. Felly, gofynnodd yn gyntaf beth y gallai Aelodau ei ddisgwyl o ran nodi a rheoli risg, ac yn ail, gofynnodd i gynrychiolwyr Archwilio Cymru a oeddent hwy'n fodlon bod yr awdurdod lleol yn symud i'r cyfeiriad cywir o ran datblygu ei broses rheoli risg, a sut yr oedd dull y Cyngor yn cymharu â'r awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. • Mewn ymateb i'r cwestiwn cyntaf, nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cyllid a Thrawsnewid fod proses wedi cael ei chytuno i ystyried risg, ac yn benodol yr awydd am risg, gyda'r nod o gyrraedd cytundeb ymhlith uwch-swyddogion ac aelodau etholedig ar ddiffiniad a matrices. Y bwriad oedd sicrhau, pan fyddai datblygiadau gwasanaeth yn cael eu cynnig – yn enwedig yng nghyd-destun yr agenda trawsnewid (sy'n dod â'i risg ei hun) – y byddai Aelodau'n derbyn matrices a fyddai'n dangos yn hollol glir lefel y risg y byddai'r awdurdod lleol yn agored iddi a pha fesurau lliniaru y gellid eu rhoi yn eu lle. Mynegodd y Prif Weithredwr y gobaith y byddai'r gwaith arfaethedig yn ychwanegu haen o soffistigeiddrwydd at ddull y Fwrdeistref Sirol o gynllunio ar gyfer yr hirdymor. • Mewn ymateb i'r ail gwestiwn, awgrymodd cynrychiolydd o Archwilio Cymru – o ran prosesau a threfniadau rheoli risg ac awydd i gymryd risg – y gallai hwn fod yn fater ar gyfer archwiliad mewnol yn hytrach nag archwiliad allanol. Roedd gan Archwilio Cymru ei brosesau asesu risg ei hun yn seiliedig ar y datganiadau ariannol, ond nid oedd hynny o reidrwydd yn cwmpasu trefniadau rheoli risg ehangach ar draws gwasanaethau ac ar draws y Cyngor yn ei gyfanrwydd. Nododd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol (RIAS) fod eu gwaith hwy yn canolbwyntio ar adolygiad cynhwysfawr o'r rheolyddion mewnol sydd yn eu lle i sicrhau bod trefniadau llywodraethu priodol, rheoli risg a rheoli priodol yn bod yn y Fwrdeistref Sirol. Mae RIAS yn sicrhau bod y system yn briodol ac yn cyflawni fel y disgwylir, ac maent yn adrodd yn unol â hynny. Ni fyddent yn adrodd ar bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Ychwanegodd
--	---

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO - DYDD MAWRTH, 29 MEDI 2026

	y Cadeirydd, o ran y gwaith arfaethedig ar risg, y gallai fod yn fuddiol edrych ar y ffordd y caiff risg ei rheoli mewn awdurdodau lleol eraill. <u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Pwyllgor yn gwneud y canlynol: • Cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon archwiliatedig am 2025-26 (Atodiad A); • Nodi Adroddiad Archwilio'r Cyfrifon gan yr archwilwyr penodedig (Atodiad B); • Cytuno ar y Llythyr Cynrychiolaeth i Archwilio Cymru ac iddo gael ei lofnodi gan Gadeirydd neu Is-gadeirydd y Pwyllgor a Swyddog Adran 151 (Atodiad C).
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	29 Medi 2026

Er mwyn gwylio rhagor o'r ddadl a gafwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y [ddolen](#) hon.

Daeth y cyfarfod i ben am 14:34.